

Cofnodion a gadarnhawyd

Atodiad A

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 23 Mai 2024

Datganiad Withyhedge

Rydym yn deall cryfder teimladau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau o amgylch Safle Tirlenwi Withyhedge, ac rydym ninnau hefyd am weld y materion yn cael eu datrys ar y safle cyn gynted â phosibl.

Mae'r asesiadau rydym yn eu cynnal i benderfynu a yw gweithredwr y safle, RML Ltd, wedi cydymffurfio â'n [Hysbysiad Gorfodi Rheoliad 36](#) yn gymhleth a bydd yn cymryd peth amser i'w cwblhau.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ein swyddogion yn cynnal archwiliad nwy llawn ar y safle tirlenwi yr wythnos hon i archwilio effeithiolrwydd system rheoli nwy y safle tirlenwi yn dilyn gwelliannau a wnaed yn sgil yr Hysbysiadau Gorfodi. Mae hyn yn cynnwys capio ardaloedd o'r safle ymhellach a gosod ffynhonnau nwy safle tirlenwi ychwanegol. Y tu allan i ofynion yr Hysbysiad Gorfodi, mae gweithredwr y safle hefyd yn gweithio i gwblhau'r gwaith o gapio cell 8 y disgwylir iddo ddod i ben yr wythnos hon.

Cynhaliwyd asesiadau arogl yn bob dydd yr wythnos ddiwethaf a thros y penwythnos mewn lleoliadau amrywiol o fewn ac o gwmpas cymunedau o amgylch Safle Tirlenwi Withyhedge, ar adegau amrywiol o'r dydd a'r nos. Gwyddom fod arogleuon yn parhau i gael eu canfod a byddwn yn parhau i gynnal ein hasesiadau yn y dyddiau a'r wythnosau i ddod i benderfynu a gafwyd unrhyw leihad o ran yr arogl.

Dim ond ar ôl i'r safle gael ei asesu'n llawn ac ar ôl i'r adroddiadau gan weithredwr y safle gael eu hadolygu y byddwn yn gallu pennu cydymffurfedd â'r hysbysiad gorfodi a gweld a yw'r camau a gymerwyd gan y gweithredwr wedi lleihau allyriadau nwyon sy'n ffoi. Yna byddwn mewn sefyllfa i ystyried a oes angen unrhyw gamau gorfodi pellach, gan edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael inni o dan y rheoliadau.

DIWEDD